

## Y DRONAU (ADAR ANGAU) YN LLANBEDR, HARLECH – Y FFEITHIAU

### Beth yw'r dronau ?

- Awyrennau di-beilot all gael eu defnyddio i fomio neu i gadw gwylidwriaeth a chasglu gwybodaeth. Maent yn cael eu galw yn 'drôns' oherwydd y sŵn fel sŵn grwndi y maent yn ei greu.
- Rhwng Mawrth 23, 2011 a Mehefin 15, 2014 gollyngodd Prydain 388 o fomiau ar Affganistan – 317 ohonynt gan dronau.<sup>1</sup>
- Pobl gyffredin, gan gynnwys plant, yw'r mwyafrif a leddir yn ddieithriad. Mewn adroddiad diweddar gan *Reprise* dywedir fod pob bom â ollyngir gan drôn Americanaidd yn lladd, ar gyfartaledd, 28 o bobl anhysbys wrth dargedu un lleoliad.<sup>2</sup>
- Mae peilotiaid yn RAF Waddington (Lloegr) wedi bod yn hedfan (trwy gyfrwng cyfrifiaduron) dronau arfog Americanaidd (sy'n cael eu hadnabod fel *Reaper*) yn Affganistan. Mae ymosodiadau tebyg yn digwydd yn Irac rwan.
- Mae'r dronau yn cael eu hadnabod hefyd fel UAV (*unmanned aerial vehicles*) neu RPAS (*remotely piloted air systems*).

### Pam gwrthwynebu y datblygiad yn Llanbedr, Gwynedd?

- Bydd Gwynedd yn leoliad i arbrofi dronau y byddant yn cael eu defnyddio i dargedu ac i ladd 'terfysgwyr' ac wrth wneud hynny yn lladd pobl gyffredin a thlawd sydd yn byw mewn ofn parhaus.
- Mae'r defnydd o dronau yn creu atgasedd yn erbyn y gwledydd sydd yn eu defnyddio ac yn arwain yn anorfod i fwy o drais.
- Oherwydd y 'lladd o bellter' mae hyn ei gwneud yn haws i gyflawni trais.
- Mae cyfran fawr o filwyr sydd wedi gweithredu dronau yn dioddef o anhwylder straen ôl-drawmatig.<sup>3</sup>
- Mae'n debyg y bydd Gwynedd yn cael ei ddefnyddio i brofi technoleg filwrol a ddatblygwyd mewn partneriaeth â chwmni arfau Israel (dronau Watchkeeper). Mae'r ymgyrch *Dim Arfogi Israel* yn galw am Waharddiad Ddwyffordd yn erbyn Israel ac yn Hydref 2014 pleidleisiodd Cyngor Gwynedd o blaid gwaharddiad gan feirniadu ymgyrchoedd di-dostur Israel yn erbyn y Palestinaid.
- Mae'r dronau wedi cael eu galw yn '*flying lawnmowers*' oherwydd eu sŵn (ddydd a nos) ond y mae hefyd gwestiynau i'w gofyn ynglŷn â diogelwch oherwydd fod enghreifftiau o ddamweiniau wedi digwydd yn Aberporth.<sup>4</sup>
- Er yr addewid o swyddi a 'gwaith i'r ardal', ychydig iawn o swyddi a ddaeth i Aberporth. Dyna yw ein hofnau am Lanbedr hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu £594,000 o arian cyhoeddus i Llanbedr Airfield Estates, a £118,000 i QinetiQ.<sup>5</sup> Mae £712,000 o arian cyhoeddus, felly, wedi'i dyfarnu gan Lywodraeth Cymru i baratoi Maes Awyr Llanbedr ar gyfer arbrofi dronau. Mae hyn yn ychwanegol at yr arian mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ei wario ar dronau, ac y mae'n arian y gellid ei wario ar swyddi da yn y gwasanaethau cyhoeddus.

## Arbrofi'r dronau yn Llanbedr

- Mae Maes Awyr Llanbedr ar lês 125 mlynedd gan Lywodraeth Cymru i Llanbedr Airfield Estates, cwmni a ffurfiwyd gan Kemble Air Services.<sup>6</sup>
- Yn 2011 cafodd Llanbedr Airfields Estates ganiatâd trwy dystysgrif gan Barc Cenedlaethol Eryri i ddefyddio'r maes awyr at bwrpas arbrofi a datblygu'r dronau.<sup>7</sup>
- Ym Medi 2013 arwyddwyd cytundeb rhwng Llanbedr Airfield Estates a QinetiQ (cwmni arfau Prydeinig a rhyngwladol) i brofi'r dronau ar y safle. Mae Edwina Hart, Gweinidog Economi Llywodraeth Cymru, yn gefnogol iawn i'r datblygiad.<sup>8</sup>
- Yn Hydref 2014 cyhoeddodd QinetiQ y byddai Maes Awyr Llanbedr yn 'agored ac yn barod i ddechrau' yn gynnar yn 2015.<sup>9</sup>
- Nid yw QinetiQ yn cynhyrchu'r dronau, ond yn hytrach yn eu profi a'u gwerthuso.
- QinetiQ sydd yn rheoli 'Canolfan yr UAV' yn Aberporth, Ceredigion, ac fe fydd dronau yn cael eu hedfan rhwng Aberporth a Llanbedr fel rhan o'r datblygiad newydd.
- Un o'r prif dronau sydd wedi cael yn cael ei brofi yn Aberporth yw'r *Watchkeeper*.

## Dronau *Watchkeeper* – cysylltiad ag Israel

- Datblygwyd y drôn *Watchkeeper 450* drwy gytundeb Weinyddiaeth Amddiffyn £800 miliwn gan U-TacS – partneriaeth rhwng Cwmni Elbit (cwmni milaraidd mwyaf Israel) gyda pherchnogaeth o 51% â Chwmni Thales (cwmni milaraidd rhyngwladol o Ffrainc.)<sup>10</sup> Adeiladwyd y 10 dronau *Watchkeeper* cyntaf yn Israel.<sup>11</sup>
- Yn Ebrill 2010 yr aeth y *Watchkeeper* ar ei thaith gyntaf o Aberporth. Yr un diwrnod, cyhoeddodd Elbit ei bod wedi arwyddo cytundeb gwerth \$70 miliwn i gynnig gwasanaeth cynnal a chadw a 'logistical support' i brosiect y *Watchkeeper*.<sup>12</sup>
- Mae'r *Watchkeeper* wedi ei sylfaenu ar y drôn *Hermes 450*, eto o Israel, sydd hefyd wedi ei harddangos yn Aberporth.<sup>13</sup>
- Ar ei gwefan, mae Elbit yn hyrwyddo'r *Hermes* fel '*a mature and combat proven UAS*'.<sup>14</sup> Mae ei heffeithiolrwydd wedi ei sylfaenu ar y llwyddiant yn Gasa. Israel yw'r masnachwr mwyaf ar y dronau yn y byd.<sup>15</sup>
- Fe wyddom fod y *Watchkeeper* wedi hedfan canoedd o weithiau o Aberporth.
- Ym Medi 2014 cyhoeddodd y Weinyddiaeth Amddiffyn fod nifer anhysbys o'r dronau *Watchkeeper* wedi eu hanfon i Affganistan.<sup>16</sup>
- Mae nifer o 'swyddogaethau' i'r *Watchkeeper* sy'n cael eu crynhoi yn y llythyrennau *ISTAR – Intelligence, Surveillance, Target Acquisition, a Reconnaissance*. Ond yn 2009 dywedodd y Farwnes Taylor y gallai Prydain gynnwys arf ysgafn ('*lightweight weapon*') yn y *Watchkeeper 450* hefyd.<sup>17</sup>
- Nid oes tystiolaeth fod y *Watchkeeper* wedi ei defnyddio i ollwng bomiau, ond yn y Ffair Fasnach Arfau (DSEi) yn Llundain yn 2014 yr oedd Thales yn arddangos y *Watchkeeper* ynghyd a thaflegryn yn gynwysedig.<sup>18</sup>
- Un o brif gyfraniad y *Watchkeeper* yw nodi'r union fan a'r lle sydd i dargedu'r gelyn. Ar ei thaith gyntaf yn Affganistan ym Medi 2014 yr oedd y *Watchkeeper* yn anfon gwybodaeth i drôn *Reaper* oedd yna yn medru bomio'r targed ar unwaith.<sup>19</sup>

- Mae cynlluniau i ddatblu'r *Watchkeeper* ym mhellach ac felly fe fydd profion yn siwr o ddigwydd yng Ngorllewin Cymru.<sup>20</sup>
- Mae llain lanio Llanbedr yn hirach o ran maint nag Aberporth ac fe all yn hawdd ei defnyddio i lanio dronau mwy na'r *Watchkeeper*. Meddai gwefan QinetiQ, '*The airfield has a 7500ft runway enabling the operation of all classes and sizes of RPAS.*'<sup>21</sup>

### **Mwy o wybodaeth**

**The Bureau of Investigative Journalism** <http://www.thebureauinvestigates.com/>

**Drone Wars** <http://dronewars.net/>

**Drone Campaign Network** <http://dronecampaignnetwork.wordpress.com/>

### **Cyfeiriadau**

- <sup>1</sup> [http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201415/cmhansrd/cm140707/text/140707w0006.htm#140707w0006.htm\\_wqn2](http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201415/cmhansrd/cm140707/text/140707w0006.htm#140707w0006.htm_wqn2)
- <sup>2</sup> [http://www.reprive.org.uk/press/2014\\_11\\_25\\_us\\_drone\\_strikes\\_kill\\_28\\_each\\_target/](http://www.reprive.org.uk/press/2014_11_25_us_drone_strikes_kill_28_each_target/)
- <sup>3</sup> [http://www.nytimes.com/2013/02/23/us/drone-pilots-found-to-get-stress-disorders-much-as-those-in-combat-do.html?\\_r=0](http://www.nytimes.com/2013/02/23/us/drone-pilots-found-to-get-stress-disorders-much-as-those-in-combat-do.html?_r=0)
- <sup>4</sup> <http://www.dailymail.co.uk/news/article-2279491/The-drone-zone-Seaside-towns-peace-shattered-testing-unmanned-aircraft-used-tackle-Taliban.html>
- <sup>5</sup> Ymateb Llywodraeth Cymru i gais Rhyddid Gwybodaeth, Ionawr 2015.
- <sup>6</sup> [http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/north\\_west/7677935.stm](http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/north_west/7677935.stm)
- <sup>7</sup> <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/flights-could-run-airfield-snowdonia-1800082>
- <sup>8</sup> <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-north-west-wales-24226287>
- <sup>9</sup> <https://www.qinetiq.com/media/news/releases/Pages/Ilanbedr-airfield-open-for-testing.aspx>
- <sup>10</sup> [http://www.theregister.co.uk/2007/06/15/watchkeeper\\_numbers\\_revealed/](http://www.theregister.co.uk/2007/06/15/watchkeeper_numbers_revealed/)
- <sup>11</sup> <https://dronewarsuk.files.wordpress.com/2014/01/israel-and-the-drone-wars.pdf>
- <sup>12</sup> <http://dronewars.net/2010/07/08/british-drones-the-israeli-connection/>
- <sup>13</sup> <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/mid/7948165.stm>
- <sup>14</sup> <https://www.elbitsystems.com/elbitmain/area-in2.asp?parent=3&num=32&num2=32>
- <sup>15</sup> <http://waronwant.org/attachments/Killer%20Drones,%20War%20on%20Want.pdf>
- <sup>16</sup> <http://www.flightglobal.com/news/articles/watchkeeper-fully-operational-in-afghanistan-uk-reveals-404254/>
- <sup>17</sup> <http://www.flightglobal.com/news/articles/uk-could-arm-its-watchkeeper-uavs-334323/>
- <sup>18</sup> <https://dronewarsuk.files.wordpress.com/2014/01/israel-and-the-drone-wars.pdf>
- <sup>19</sup> <http://www.flightglobal.com/news/articles/british-army-praises-performance-of-watchkeeper-during-debut-406159/>
- <sup>20</sup> <http://www.defensenews.com/article/20140618/DEFREG01/306180015/UK-s-Watchkeeper-Fleet-Completed-by-End-Year>
- <sup>21</sup> <https://www.qinetiq.com/media/news/releases/Pages/Ilanbedr-airfield-open-for-testing.aspx>